| | |
|---|---|
| Teitl y cyfarfod: | Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus Gwesty Parkway, Cwmbrân a Microsoft Teams |
| Dyddiad y cyfarfod: | 18 Mai 2023 |
| Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol: | Syr David Henshaw, Cadeirydd<br>Clare Pillman, Prif Weithredwr<br>Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd<br>Julia Cherrett (eitemau 1-8)<br>Geraint Davies<br>Yr Athro Peter Fox<br>Yr Athro Rhys Jones<br>Mark McKenna<br>Kathleen Palmer<br>Helen Pittaway<br>Dr Rosie Plummer<br>Yr Athro Peter Rigby |
| Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol: | Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol<br>Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu<br>Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol y Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu<br>Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Digidol, yn dirprwyo ar ran<br>Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol<br>Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau |
| Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol: | Victoria Painter, Pennaeth Dros Dro Llywodraethu ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd (yr holl eitemau)<br>Rob Bell, Pennaeth Cyllid (eitem 6) Teams |

| | |
|---|---|
| | Clare Jones, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Llywodraethu (eitem 8) Teams<br><br><u>Eitem 9 (wyneb yn wyneb)</u><br><br>Peter Perry, Prif Swyddog Gweithredol, Dŵr Cymru<br>James Jesic, Rheolwr Gyfarwyddwr, Hafren Dyfrdwy<br>Steve Wilson, Rheolwr Gyfarwyddwr – Gwasanaethau Dŵr Gwastraff, Cwsmeriaid Busnes ac Ynni, Dŵr Cymru<br>Stephanie Pullen, Arweinydd Trwyddedau a Rheoliadau Amgylcheddol, Hafren Dyfrdwy<br>Eifiona Williams, Pennaeth y Gangen Dŵr, Llywodraeth Cymru<br>Siân Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Orllewin Cymru<br>Ruth Jenkins, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol<br>Natalie Hall, Rheolwr Dŵr Cynaliadwy (Teams)<br>Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch (eitem 10) Wyneb yn wyneb |
| Arsylwyr CNC: | Jon Goldsworthy, Pennaeth Dros Dro Gweithrediadau De Ddwyrain Cymru<br>Kate Evans, Rheolwr, Materion Cyhoeddus / Ysgrifennydd Preifat y Prif Swyddog Gweithredol<br>Danielle Phillips, Chwarae Teg |
| Datganiadau: | Rosie Plummer – Aelod o Fwrdd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Ymddiriedolwr Plantlife, sef dau sefydliad a gaiff grantiau gan CNC<br>Yr Athro Steve Ormerod – Aelod o ddwy Ymddiriedolaeth Natur yng Nghymru (dim dylanwad ar bolisi); Is-lywydd yr RSPB (dim dylanwad ar bolisi); Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (dim dylanwad ar bolisi); Cymrawd y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheoli Amgylcheddol (dim dylanwad ar |

bolisi); buddiant o ran ymchwil wyddonol mewn ansawdd dŵr trwy gyfrwng Prifysgol Caerdydd; mae ei wraig yn aelod o Banel Cynghori Annibynnol Dŵr Cymru ar yr Amgylchedd; mae ei wraig yn Gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Dŵr Prifysgol Caerdydd sy'n rheoli partneriaeth strategol gyda Dŵr Cymru.
Geraint Davies – Aelod o grŵp cynghori sy'n gweithio ar gyfeiriad Ystad Llyn Efyrnwy yn y dyfodol ac sydd â thir oddi mewn i SoDdGA).

| | |
|---|---|
| Ymddiheuriadau: | Yr Athro Calvin Jones<br>Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol |
| Ysgrifenyddiaeth: | Natalie Williams<br>Siân Johnston<br>Owen Williams |

# Cofnodion a gadarnhawyd

## Eitem 1: Agor y Cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod ac estynnodd groeso i bawb. Nodwyd y datganiadau buddiannau fel y gwelir uchod a nodwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Calvin Jones a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol.

## Eitem 2: Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu

## 2A: Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 23 Mawrth

2. Adolygwyd cofnodion cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, a chytunwyd arnynt.

## 2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu

3. Adolygwyd a nodwyd y cofnod gweithredu.

## Eitem 3: Diweddariad gan y Cadeirydd

4. Cyflwynodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â thrafodaethau'n ymwneud ag amrywiaeth eang o faterion gyda Gweinidogion, dywedodd fod y gyllideb wedi'i setlo  gyda Llywodraeth Cymru a rhoddodd wybod y bydd uwchgynhadledd arall yn ymwneud ag ansawdd dŵr yn cael ei chynnal yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn 2023.

## Eitem 4: Adroddiad gan y Prif Weithredwr

5. Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag eitemau a oedd yn ychwanegol at yr adroddiad ysgrifenedig. Cynhaliwyd cyfarfod gyda staff a rhanddeiliaid ar Ystad Hafod yn ymwneud â digwyddiad ffurfiol i ddathlu'r achlysur o drosglwyddo'r tir  hanesyddol hwn o ddwylo CNC i ddwylo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i un corff reoli'r tir a'r adeiladau a oedd gynt yn eiddo i Richard Broyde  OBE. Mynychwyd y cyfarfod hefyd gan Gadeirydd a Phrif Weithredwr presennol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn ogystal â'r cyn-Gadeirydd a'r cyn-Brif Weithredwr.

6. Roedd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Tir Cynaliadwy wedi cynnal cyfarfod cychwynnol gyda Chadeirydd newydd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru. Esgeuluswyd  y berthynas braidd oherwydd Covid, ond bu'r cyfarfod hwn yn effeithiol a chafwyd trafodaethau da.

7. Llwyddodd CNC i ddwyn camau gorfodi llwyddiannus yn erbyn Taylor Wimpey. Yn Llys Ynadon Cwmbrân, cafwyd y cwmni'n euog o gyhuddiad yn ymwneud â thorri rheoliadau trwyddedu amgylcheddol. Cafwyd sawl digwyddiad yn ymwneud â llygredd, a arweiniodd  at ddirwy o £480,000; a hefyd, gorchmynnwyd y dylai Taylor Wimpey dalu costau CNC. Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau yn

cysylltu â Taylor Wimpey er mwyn i’r cwmni allu cymryd rhan mewn trafodaeth ‘gwersi a ddysgwyd’.

8. Cadarnhawyd y bydd y dirwyon hyn yn cael eu talu i Drysorlys Ei Fawrhydi ac mai’r unig arian a ddaw i ddwylo CNC fydd y costau, fel y gorchmynnwyd yn yr achos hwn. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru, er mwyn gallu defnyddio arian y dirwyon hyn i helpu’r amgylchedd. Pan gaiff dirwyon eu cyflwyno o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002, nodwyd nad yw’r arian yn dychwelyd i’r system a niweidiwyd.

9. Cafwyd achos gorfodi llwyddiannus arall hefyd, sef gweithgaredd gwastraff anghyfreithlon yn Wrecsam. Arweiniodd at ddedfryd o garchar o 14 mis i un diffynnydd (dedfryd wedi’i gohirio am 18 mis), a chafodd y ddau ddiffynnydd arall ddedfrydau carchar gohiriedig. Fe’u gorchmynnwyd i dalu’r costau a chyflwynwyd rhywfaint o ddirwyon. Roedd yr achos hwn yn berthnasol i Ddeddf Enillion Troseddau 2002 a bydd CNC yn cadw golwg ar y sefyllfa.

10. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd rhagor o oedi’n dod i ran Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN 15), gan fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori o’r newydd yn ei gylch. Cadarnhawyd bod cadernid y model y seilir TAN arno yn rhagorol. Fe wnaeth yr wybodaeth a gyflwynodd CNC i’r awdurdodau lleol dynnu sylw at y ffaith bod angen addasu ar gyfer newid hinsawdd, yn hytrach na lliniaru newid hinsawdd yn unig.

11. Cafwyd adroddiadau’n ymwneud â marwolaethau llawer o wylanod penddu oherwydd ffliw adar. Dechreuodd y ffliw adar yn Lloegr, ond ers hynny mae wedi taro safleoedd gwarchodedig yng Nghymru. Gan fod y ffliw yn effeithio ar un o rywogaethau’r Rhestr Goch yng Nghymru, gwelir bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb mewn ffordd wahanol, a bydd CNC yn rhan o ymateb ‘categori un’. Bydd CNC yn cydgysylltu â’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a Llywodraeth Cymru.

12. Tynnodd y Dirprwy Gadeirydd sylw at erthygl newyddion ar BBC News, lle nodwyd y byddwn yn mynd y tu hwnt i’r trothwy cynhesu byd-eang 1.5°C yn ystod y pum mlynedd nesaf.

## Eitem 5: Adroddiadau Diweddaru gan Bwyllgorau a Fforymau

13. Ni chafwyd unrhyw adroddiad diweddaru gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg na’r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid, oherwydd ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd.

14. Cyflwynodd yr Athro Peter Rigby o’r Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â’r cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai. Cyflwynwyd tri phwnc, yn cynnwys economïau cylchol ac atgynhyrchiol – dengys hyn fod yna ddiddordeb yn y modd y defnyddia CNC ei swyddogaethau eirioli i gyfleu’r negeseuon hyn. Cyflwynwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â’r Rhaglen Mawndiroedd. Roedd yr wybodaeth yn ddiddorol, ond tasg anodd oedd cymharu’r rhaglen hon â rhaglenni tebyg yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gan fod y cyrff yn defnyddio metrigau gwahanol. Mae angen sicrhau bod CNC yn cael gwerth am arian gyda’r Rhaglen hon.

15. Hefyd, cyflynwyd y Rhaglen Rhwydweithiau Natur gerbron y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth, yn cynnwys gwaith mapio'n ymwneud â'r modd y gellid cysylltu gwahanol rannau o gefn gwlad gyda'i gilydd. Mae'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur yn gysylltiedig â'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, a fydd yn symud i gam nesaf y cyfarfodydd gyda'r Dirprwy Gadeirydd yn cadeirio grŵp sy'n adolygu cadwraeth amgylcheddol. Helpodd yr ymarfer mapio i ddangos ble yn union y ceir capasiti o fewn CNC i fodloni'r gofynion ar gyfer cyflawni'r targed '30 erbyn 30'.

16. Cyflwynodd Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynglŷn â'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill. Cymerwyd yn ganiataol bod pawb wedi darllen y papur.

17. Rhoddodd yr Athro Pete Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd, y diweddaraf i'r Bwrdd ynglŷn â'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill. Cymerwyd yn ganiataol bod pawb wedi darllen y papur. Canolbwyntiwyd ar wariant a chymeradwyaeth, gwersi a ddysgwyd, a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y dyfodol. Bydd y gorwariant ar Gyfalaf a Chynllun Rhydaman yn cael ei ail-drafod gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

**CAM GWEITHREDU: Dylai'r Ysgrifenyddiaeth ychwanegu'r gorwariant ar Gyfalaf Llifogydd a Chynllun Rhydaman at Ragolwg y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.**

18. Cyflwynodd Geraint Davies, a oedd yn dirprwyo fel Cadeirydd y Pwyllgor Ystad Tir ar ran yr Athro Calvin Jones, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynglŷn â'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mai. Roedd y Pwyllgor Ystad Tir wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â stiwardio tir a datblygu fframwaith, y Strategaeth Hamdden a'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren, a chafwyd cyflwyniad gan y tîm Masnachol ynglŷn â sut i fwrw ymlaen â rheoli'r ystâd goetir yn y dyfodol. Hefyd, ymwelodd aelodau'r Pwyllgor â safle Croeso i'n Coedwig yn dilyn y cyfarfod.

19. Nododd Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig, fod ymweliad wedi'i gynnal â safle Misglod Perlog yr Afon ar 4 Mai. Dangosodd yr ymweliad hwn y cymhlethdodau sy'n perthyn i'r amgylchedd diwylliannol mae CNC yn gweithio ynddo o ran rhai o'i gynlluniau hirdymor i adfer bioamrywiaeth.

20. Cyflwynodd yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd. Cymerwyd yn ganiataol bod pawb wedi darllen y papur. Diolchwyd i Zoe Henderson am ei gwaith fel Cadeirydd blaenorol y Fforwm Rheoli Tir. Roedd yr is-grŵp llygredd amaethyddol wedi cyfarfod unwaith neu ddwy i drafod sut i ddatblygu'i waith.

21. Cyflwynodd yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru, yr wybodaeth ddiweddaraf. Roedd y ddau fforwm wedi cynnal ymweliad safle ar y cyd er mwyn gweld y gwaith a wneir i adfer afonydd yn ardal Conwy. Nid oedd y Fforwm Pysgodfeydd wedi cynnal unrhyw gyfarfodydd. Cymerwyd yn ganiataol bod pawb wedi darllen papur y Fforwm Rheoli Dŵr, a nodwyd bod y fforwm wedi cael cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfarfod lle trafodwyd y risgiau sy'n wynebu amgylchedd y dŵr o du cynhyrchion fferyllol, ynghyd â ffyrdd o reoli dŵr yn y dyfodol.

22. Cyflwynodd Geraint Davies, Cadeirydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd. Cymerwyd yn ganiataol bod pawb wedi darllen y

papur. Er bod cyfarfod da wedi'i gynnal gyda'r Gweinidog Lesley Griffiths AS, bydd y Fforwm yn cyfarfod â'r Gweinidog Julie James AS yn y dyfodol gan fod portffolios y gweinidogion wedi newid.

## Eitem 6: Adroddiad ar Berfformiad Ariannol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

23. Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Pennaeth Cyllid a thynnwyd sylw at uchafbwyntiau'r papur. Roedd y Pwyllgor Cyllid a'r Tîm Gweithredol wedi craffu ar y sefyllfa diwedd blwyddyn. Cynyddwyd y rhagolygon, oherwydd roedd Llywodraeth Cymru wedi talu'r pensiynau. Roedd yna ddiffyg o £1.4m – deilliodd hwn o orwariant yn ymwneud â Stiwardio Tir a'r Rhaglen Cyfalaf Llifogydd. Bydd ymarfer 'gwersi a ddysgwyd' yn cael ei gynnal ynglŷn â'r gorwario, ac mae'r Prif Weithredwr wedi ysgrifennu llythyr at y Gweinidog yn ymddiheuro am hyn. Tynnwyd sylw'r Gweinidog at y ffaith bod awdurdodau lleol wedi tanwario'u cyllideb llifogydd; o'r herwydd, gellir cydbwyso cyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer llifogydd.

24. Tanwariwyd cyllid allanol o du grantiau gan Lywodraeth Cymru, ond bydd yr incwm yn cael ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Ymddengys fel pe bai'r tanwariant yn fawr, ond gwnaed llawer o gynnydd yn achos yr holl gynlluniau cyllid allanol. Rhoddwyd rhai rhaglenni ar waith yn effeithiol eleni, fel y Rhaglen Caffael Tir. Bydd y dull adrodd ariannol yn newid ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Cyllid ym mis Mehefin.

25. Gofynnwyd a oes 'coreograffi' gwario i'w gael ar draws holl gyllideb llifogydd Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau gwell sicrwydd o ran cyflawni. Nodwyd mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am wneud hyn, ond dibynnir ar wybodaeth gan CNC ac awdurdodau lleol. Roedd CNC wedi cynnig helpu yn y gorffennol a bydd yn cynnig helpu drachefn, a hefyd bydd yn rhannu gwybodaeth gyda Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'i ymarfer 'gwersi a ddysgwyd'. Cytunwyd hefyd y dylid siarad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â phrosiectau cyfalaf llifogydd.

## Eitem 7: Rhaglen Prentisiaeth Bwrdd y DU

Cyflwynydd: Natalie Williams, Arweinydd Tîm a Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd, Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

26. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cadeirydd. Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm a Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd, Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd drosolwg o'r papur. Tynnwyd sylw at y ffaith na fydd gan CNC unrhyw rôl yn y dasg o recriwtio prentis, ond y bydd yn rhaid i'r sefydliad gwblhau gwiriadau diwydrwydd dyladwy. Er bod prentis posibl wedi cysylltu â CNC, ni cheir unrhyw sicrwydd y bydd yr unigolyn hwnnw'n cael ymuno â CNC.

27. Croesawyd y Rhaglen, oherwydd ar hyn o bryd ceir diffyg amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus. Fodd bynnag, nodwyd nad yw'r cynllun hwn yn ddigon hir, o bosibl, i gael effaith sylweddol. Cynllun Llywodraeth y DU yw hwn, nid cynllun Llywodraeth Cymru, a byddai o fudd pe bai'r cynllun yn cael ei gyflwyno'n ehangach ledled Cymru. Mae CNC  angen cynllun mentora effeithiol, ynghyd â chynllun ar

gyfer olyniaeth. Awgrymwyd y dylid ystyried parhau i recriwtio aelodau Bwrdd sy'n siaradwyr Cymraeg, gan fynd ati o bosibl i greu prentisiaeth ar gyfer hyn.

28. Bydd yn ddiddorol gweld beth fydd manteision y Rhaglen hon, yn hytrach na phe bai CNC yn cynnal ei raglen ei hun. Byddai'n well pe bai gan CNC gysylltiad uniongyrchol â'r broses recriwtio. Trwy gymryd rhan yn y Rhaglen, bydd modd i CNC ddysgu gwersi a gweld a fydd modd iddo gynnal y cynllun ar ei liwt ei hun yn y dyfodol. Roedd Llywodraeth Cymru yn gefnogol i'r cynllun, a bydd hithau hefyd yn awyddus i ddysgu ar sail y Rhaglen. O ran y syniad mai cyfarfodydd cyhoeddus yn unig y dylai'r prentis eu mynychu, cytunwyd y dylid gwrthod y syniad hwnnw gan na fyddai mynychu cyfarfodydd cyhoeddus yn unig o werth mawr i'r prentis.

29. Gwnaed llawer o waith gyda'r Pennaeth Llywodraethu blaenorol ac Ysgrifennydd blaenorol y Bwrdd, ond rhoddwyd y gwaith hwn i'r naill ochr wrth recriwtio'r rôl hon. Roedd y gwaith yn cynnwys cynnal cyfarfodydd â phobl a oedd wedi cymryd rhan mewn cynlluniau tebyg, er mwyn clywed eu safbwyntiau. Roedd Kath Palmer wedi sefydlu cynllun tebyg gyda chymdeithasau tai, a bydd yn rhannu'r manylion hyn gyda Mark McKenna, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid.

30. Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â diffyg cynlluniau prentisiaeth ledled Cymru ar lefel graddedigion, a dywedwyd bod angen cynnwys pobl ifanc yn y broses. Dyma rywbeth y gall CNC ei ystyried, a gofynnwyd i Mark McKenna fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, bydd y gwaith hwn yn parhau ar ôl recriwtio unigolion parhaol i ymgymryd â'r rolau Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd.

31. Mae'r cynllun angen mentor sy'n aelod o Fwrdd CNC. Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau â diddordeb gysylltu â'r Arweinydd Tîm a Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd, Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd.

**CAM GWEITHREDU: Dylai'r Arweinydd Tîm ac Ysgrifennydd y Bwrdd, Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd gysylltu â'r aelodau ynglŷn â threfnu mentor ar gyfer prentis y Bwrdd.**

32. Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig i ymrwymo i Raglen Brentisiaeth Bwrdd y DU.

**CYMERADWYWYD y cynnig i ymrwymo i Raglen Brentisiaeth Bwrdd y DU**

## Eitem 8: Newidiadau Arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS)

Cyflwynydd: Clare Jones, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Llywodraethu

33. Cyflwynodd y Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Llywodraethu yr eitem hon gerbron y Bwrdd. Mae'r Bwrdd Busnes Rheoleiddio wedi pennu dau faes nad ymdrinnir â nhw, a gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r ychwanegiadau at Feistrddogfen y Cynllun Statudol a Chyfreithiol.

34. Cymeradwyodd y Bwrdd y newidiadau i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol.

**CYMERADWYWYD ychwanegiadau'r Bwrdd Busnes Rheoleiddio at y Cynllun Statudol a Chyfreithiol**

## Eitem 9: Trafodaeth gyda Dŵr Cymru/Welsh Water a Hafren Dyfrdwy

Cyflwynwyr: Peter Perry, Prif Swyddog Gweithredol, Dŵr Cymru; James Jesic, Rheolwr Gyfarwyddwr, Hafren Dyfrdwy

Mynychwyr Allanol: Steve Wilson, Rheolwr Gyfarwyddwr – Gwasanaethau Dŵr Gwastraff, Cwsmeriaid Busnes ac Ynni, Dŵr Cymru; Stephanie Pullen, Arweinydd Trwyddedau a Rheoliadau Amgylcheddol, Hafren Dyfrdwy; Eifiona Williams, Pennaeth y Gangen Dŵr, Llywodraeth Cymru

Mynychwyr CNC: Siân Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Orllewin Cymru; Ruth Jenkins, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol; Natalie Hall, Rheolwr Dŵr Cynaliadwy

35. Cyflwynwyd yr eitem gan y Prif Weithredwr. Ac yntau'n Rheoleiddiwr Amgylcheddol Cymru, mae gan CNC ddiddordeb mawr a rôl hollbwysig yn yr Adolygiad Prisiau (PR24). Bydd modd i'r ddau gwmni dŵr gyfrannu'n fawr at y modd y bydd Cymru yn ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd. Yn dilyn y cyflwyniadau a roddodd y cwmnïau dŵr gerbron y Bwrdd ym mis Tachwedd 2022, ymatebodd CNC gyda syniadau, cwestiynau a phryderon. Ers hynny, aethpwyd i'r afael â gwaith rhwng CNC, Ofwat a Llywodraeth Cymru.

36. Rhoddodd James Jesic, Rheolwr Gyfarwyddwr Hafren Dyfrdwy, drosolwg o'r cyflwyniad i'r Bwrdd. Tynnwyd sylw at faint Hafren Dyfrdwy, a bydd angen cydbwysedd er mwyn gwella'r amgylchedd a sicrhau bod biliau cwsmeriaid yn fforddiadwy. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys gwelliannau o ran ymrwymiadau gwyrdd (o 50% i ymron 80%), defnyddio llai o Orlifoedd Carthffosiaeth Cyfunol, ac uchelgais sero net. Fel rhan o uchelgais sero net y cwmni, cynhwyswyd cerbydau trydan, ond ceir her o ran seilwaith yn hyn o beth o fewn yr ardaloedd a wasanaethir gan Hafren Dyfrdwy. Mae Hafren Dyfrdwy wedi sicrhau ei fod yn gyfarwydd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae wedi gwrando ar ei gwsmeriaid. Bydd y sesiwn 'Dy Ddŵr, Dy Ddweud' yn cael ei chynnal ar 23 Mai. Mae Hafren Dyfrdwy yn awyddus i gynorthwyo'i gwsmeriaid, ac felly cynigiwyd 27c y dydd yn ychwanegol ar filiau cwsmeriaid. Bydd hyn yn arwain at allu buddsoddi £41m mewn ymrwymiadau amgylcheddol.

37. Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb rhwng y Bwrdd a chynrychiolwyr Hafren Dyfrdwy.

38. Gofynnwyd i Hafren Dyfrdwy a oes modd i'r cwmni wneud mwy i helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd, er budd pobl Cymru. Cyfeiriodd Hafren Dyfrdwy at y cyflwyniad a nododd fod Hafren Dyfrdwy yn cynnal cyfarfodydd perfformiad ar wahân lle canolbwyntir ar welliannau amgylcheddol. Hefyd, mae Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd Hafren Dyfrdwy wedi adolygu'r mater hwn. Nododd Stephanie Pullen, Arweinydd Trwyddedau a Rheoliadau Amgylcheddol yn Hafren Dyfrdwy, mai tynnu dŵr yn unig a wneir o Afon Dyfrdwy, ac na chaiff unrhyw beth ei ollwng iddi o'u hasedau carthffosiaeth, a dywedodd hefyd fod y cwmni'n ystyried dulliau o reoli'r dalgylch, gan weithio gyda chwmnïau dŵr eraill yn yr ardal. Hefyd, mae lleihau gollyngiadau a defnyddio mesuryddion deallus yn agweddau eraill a gaiff eu hadolygu ar hyn o bryd.

39. Gofynnwyd i Hafren Dyfrdwy egluro pa gamau nad oes modd ymdrin â nhw yn PR24 a pha ymrwymiadau mae'r cwmni wedi'u gwneud yn dilyn PR24.

Pwysleisiodd Hafren Dyfrdwy fod yna lawer i'w wneud ar ôl 2030 ac y bydd y cwmni'n parhau i geisio lleihau perygl llygredd. Mae angen ystyried ar y cyd sut gellir rheoli'r dalgylch ehangach yn yr hirdymor, yn cynnwys sut i adolygu dalgylchoedd o safbwynt cwmnïau dŵr, o safbwynt y diwydiant ac o safbwynt amaethyddol.

40. Mewn ymateb i ymholiad yn ymwneud â sut gallai CNC wneud mwy i weithio mewn partneriaeth, nododd Hafren Dyfrdwy fod angen gwella seilwaith ar gyfer cerbydau trydan, ac awgrymodd y gallai CNC ddwyn pobl ynghyd. Wedyn, byddai modd i randdeiliaid gyfnewid gwybodaeth ac arbenigedd. Nodwyd hefyd fod ymdrin â'r dalgylch ehangach yn rhywbeth y gellid anelu at ei wneud trwy weithio mewn partneriaeth.

41. Holwyd sut byddai Hafren Dyfrdwy yn cynyddu gwerth am arian, o ran arloesi a gweithio gydag eraill. Dywedodd Hafren Dyfrdwy ei fod yn gweithio gyda chyflenwyr lleol gan fod hynny'n rhatach ac yn gyflymach, a'i fod yn fodlon ystyried gweithio mewn partneriaeth. Ar hyn o bryd, mae'r cwmni'n archwilio treial sy'n defnyddio ffeibrau tywyll, lle gellir defnyddio ffeibrau optig nas defnyddir yn y rhwydwaith i helpu i ddod o hyd i ollyngiadau. Mae Hafren Dyfrdwy yn gweithredu mewn 'diwylliant perfformiad', ac mae modd iddo gyflawni pethau'n fwy effeithiol ac yn gyflymach. Gan fod Hafren Dyfrdwy yn rhan o Severn Trent PLC, mae'r cwmni'n gallu defnyddio adnoddau arbenigol gan Severn Trent pan fo angen.

42. Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â sut gallai gwelliannau bioamrywiaeth yn Ardal Efyrnwy fod o fudd i'r amgylchedd ac i bobl yr ardal, nododd Hafren Dyfrdwy ei fod yn gweithio gydag RSPB Cymru. Hefyd, mae cyllid partneriaeth wedi galluogi Hafren Dyfrdwy i roi £50,000 i elusennau lleol, ac mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi arweiniad i'r cwmni o ran ble yn union y dylid cyfrannu'r arian. Yng Nghynllun Amgylchedd Cenedlaethol Hafren Dyfrdwy, ystyrir sut gellir cyflymu'r broses o fuddsoddi mewn Gorlifoedd Carthffosiaeth Cyfunol. Hefyd, ystyrir yr hyn y gellir ei wneud er budd gwlyptiroedd yn y dyfodol, a sut i ennyn diddordeb pobl yn y mater.

43. Cadarnhaodd Hafren Dyfrdwy fod ei ddull meincnodi presennol yn seiliedig ar dablau perfformiad Ofwat, ond ei fod yn awyddus i weld sut gellid defnyddio dulliau meincnodi eraill. Mae yna ddwy her yn atal gwelliannau. Un her yw'r ffaith fod y deunyddiau a ddefnyddiwyd ar gyfer pibellu/asedau yn y 1970au yn gallu torri'n rhwydd o ganlyniadau i newidiadau hinsoddol. Hefyd, nid oes llawer o hyblygrwydd yn y rhwydwaith mewn ardaloedd gwledig fel Powys; mae angen adolygu sut gellir gwella cadernid yn hyn o beth.

44. Diolchodd y Cadeirydd i Hafren Dyfrdwy am y cyflwyniad ac estynnwyd gwahoddiad i Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) roi ei gyflwyniad.

45. Cyflwynodd Peter Perry, Prif Swyddog Gweithredol DCWW, drosolwg o'r cyflwyniad, a fydd yn ymdrin â'r materion yr holodd CNC yn eu cylch yn dilyn y cyflwyniad diwethaf a roddwyd gerbron y Bwrdd. Dyma'r uchafbwyntiau: roedd y cynllun Cynnal a Chadw Cyfalaf a'r Cynllun Amgylchedd Cenedlaethol cyfun ar gyfer PR24 yn werth £1.4 biliwn; cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfarfodydd â gwleidyddion; ynghyd ag ymrwymiad i gyflawni uchelgais sero net. Eir ati'n rheolaidd i drafod gyda Bwrdd DCWW pa mor gyraeddadwy yw'r

cynlluniau. Cydnabu DCWW na fydd y cynllun pum mlynedd hwn yn ymdrin â graddfa’r materion amgylcheddol a wynebir. Pwysleisiodd DCWW fod angen iddo wneud mwy o ran Gorlifoedd Carthffosiaeth Cyfunol a’i fod wedi ymrwymo i symud tuag fod yn gwmni uchel ei berfformiad.

46. Nododd Steve Wilson, Rheolwr Gyfarwyddwr – Gwasanaethau Dŵr Gwastraff, Cwsmeriaid Busnes ac Ynni, DCWW, fod rheoli’r etifeddiaeth hirdymor o ran ymdrin â ffosfforws a Gorlifoedd Carthffosiaeth Cyfunol yn golygu ystyried atebion seiliedig ar natur fel yr ateb a ffefrir yn hytrach na’u hystyried fel eithriad i’r rheol. Os defnyddir dulliau traddodiadol o gael gwared â ffosfforws yn ystod y pum mlynedd nesaf, bydd y costau gweithredu’n cynyddu £35m. Fodd bynnag, os defnyddir atebion seiliedig ar natur, bydd y costau gweithredu’n gostwng. Nododd DCWW fod ganddo lawer o waith i’w wneud, ond bod y nifer fechan o aelwydydd o gymharu â’r nifer o Orlifoedd Carthffosiaeth Cyfunol yn golygu bod biliau wedi gorfod codi, ac y byddant yn codi yn y dyfodol hefyd yn ôl pob tebyg.

47. Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb rhwng y Bwrdd a chynrychiolwyr DCWW.

48. Holwyd ynghylch hyd a lled gwariant arfaethedig DCWW i sicrhau y cydymffurfir â rheolau amgylcheddol. Cafodd nifer y camau gweithredu cydymffurfio presennol ei godi, a cheisiodd CNC sicrwydd fod DCWW yn gwneud popeth o fewn ei allu i gydymffurfio.

49. Nododd DCWW y byddai’n fwy optimistaidd ynglŷn â’r hirdymor pe bai modd iddo gyflawni atebion seiliedig ar natur fel adeiladu gwlyptiroedd, oherwydd byddai hyn yn dda o safbwynt costau, bioamrywiaeth a charbon. Pwysleisiwyd bod adeiladu atebion ar gyfer cael gwared â ffosfforws yn waith drud-ar-garbon. Rhwng y pum mlynedd a’r deg mlynedd nesaf, bydd DCWW yn ysgogi arloesi er mwyn esgor ar fanteision hirdymor, yn ogystal â rhoi gwelliannau mewn technoleg ar waith a gweithio mewn partneriaeth. Mae staff DCWW ‘allan yn y maes’ yn cynnal gwaith archwilio i ddigwyddiadau yn fwy nag erioed o’r blaen ac mae’r cwmni’n gweithio’n galed i wella’r modd y cydymffurfir â rheolau amgylcheddol.

50. Nodwyd bod llai o dystiolaeth y bydd atebion seiliedig ar natur yn cyflawni yn ôl y disgwyl o’i gymharu ag asedau traddodiadol, ac felly dywedwyd bod angen gwell tystiolaeth. Eisoes, mae DCWW wedi adeiladu ateb seiliedig ar natur yn Llanelli a safle Gorlif Carthffosiaeth Cyfunol seiliedig ar natur ger Pont-y-pŵl, felly roedd y sylfaen dystiolaeth a’r hyder mewn atebion seiliedig ar natur yn cynyddu.

51. Gofynnwyd i DCWW egluro sut bydd ei gynigion buddsoddi yn helpu’r amgylchedd, gan fod perfformiad amgylcheddol y cwmni wedi gostwng. Nododd DCWW mai’r her yw cynnal a chadw’i ganolfan bresennol, ac y bydd yr arian a gaiff ei wario ar gynnal a chadw bob amser yn fwy nag y byddai’r Adolygiad Prisiau yn ei ariannu. Nid methiant asedau yw’r broblem fwyaf o ran llygredd, ond rhwystrau newydd fel weips gwlyb. Gwaith anodd yw dod o hyd i’r rhwystrau hyn cyn iddynt droi’n broblem ac achosi llygredd. Gofynnwyd i CNC am gymorth i lobïo i wahardd weips gwlyb. Tynnodd DCWW sylw at y ffaith mai ef sy’n meddu ar y record llygredd gorau yn y diwydiant wrth edrych ar Gymru a Lloegr. Pwysleisiodd hefyd fod yr asedau’n hen ac na chawsant eu cynllunio ar gyfer delio â’r amodau a ddaw i’w rhan yn awr mewn perthynas â’r newid mewn effeithiau hinsawdd.

52. Er gwaethaf y rhesymau hyn, ailadroddodd y Cadeirydd fod perfformiad amgylcheddol y cwmni'n gostwng a bod hyn yn destun pryder. Holodd drachefn sut bydd y cwmni'n gwella'i berfformiad. Nododd DCWW fod ganddo gynllun gwella/gweithredu, sy'n cynnwys defnyddio technoleg ddeallus mewn carthffosydd. Mae yna ddau fater, sef cyrraedd problemau ynghynt a delio â pherfformiad asedau. Cyfarfu pwyllgor ansawdd a diogelwch DCWW i gynnal adolygiad perfformiad chwarterol gyda'i Fwrdd, ac ymdriniwyd yn benodol â methiannau. Nodwyd siomedigaeth y pwyllgor o ran yr ymdrech a wneir i wella perfformiad, heb esgor ar ganlyniadau. Rhaid gwella'r rhagfynegiadau hefyd er mwyn sicrhau na fydd methiannau'n digwydd. Mae angen gwella deallusrwydd y rhwydwaith trwy ddefnyddio synwyryddion ac ati, ac mae hyn wrthi'n cael ei gyflwyno. Mae'r nifer o gwsmeriaid sy'n dioddef llifogydd carthffosydd ar ei isaf erioed, o ganlyniad i ddefnyddio synwyryddion a'r camau a gymerwyd. Er gwaethaf hyn, pwysleisiodd y Cadeirydd unwaith eto bod ei berfformiad amgylcheddol yn gwaethygu er gwaethaf hyn.

53. Holwyd a yw cwsmeriaid DCWW yn ymwybodol o'r camau buddsoddi a gymerir gan y cwmni i gael cymorth cwsmeriaid i ddelio â'r heriau buddsoddi sy'n ei wynebu. Gofynnwyd i DCWW a oedd wedi archwilio pob opsiwn ar gyfer codi arian i helpu i dalu am y buddsoddiad, a pha un a oedd yn hyderus ei fod yn cael gwerth am arian. Gofynnodd y Bwrdd a oedd y cwmni wedi creu digon o bartneriaethau ar gyfer delio â materion dalgylchoedd, a pha un a oedd wedi dysgu arferion gorau.

54. Nododd DCWW ei fod yn ymgysylltu â'i gwsmeriaid er mwyn deall beth yw'r flaenoriaeth yn eu tyb nhw. Defnyddiodd y cwmni Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) i lywio'r ymchwil a gynhaliodd gyda'i gwsmeriaid. Mewn arolwg, dywedodd 20% o'i gwsmeriaid eu bod yn pryderu ynglŷn â'u biliau. Uchelgais y cwmni yw edrych ddwy flynedd i'r dyfodol gyda'r rhaglen Gyfalaf, fel y gellir swmp-brynu deunyddiau – bydd hyn yn rhatach yn y pen draw. Mae gan DCWW rwymedigaeth i sicrhau bod popeth a wneir yn cael ei wneud er budd ei gwsmeriaid a'r amgylchedd.

55. Trafodwyd yr arfer o weithio mewn partneriaeth. Nodwyd bod y broses hon yn broses anodd ei rhoi ar waith a bod angen i'r cwmni weithio mewn modd mwy deallus er mwyn sicrhau gwerth am arian. Awgrymwyd partneriaethau eraill ar gyfer gwella ansawdd dŵr, megis gweithio gyda ffermwyr. Mae DCWW yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd er mwyn helpu i newid y ffordd mae pobl yn ymddwyn.

56. Holwyd DCWW ynglŷn â mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog a pha un a oes tystiolaeth fod manteision yn dod i ran ansawdd dŵr yfed neu ddŵr wyneb. Esboniodd y cwmni ei fod yn gweithio ar adfer mawndiroedd. Caiff llawer o waith mapio ei wneud er mwyn deall beth yn union a gaiff ei fwydo i afonydd a chronfeydd dŵr DCWW, fel y gellir cael darlun manylach. Caiff gwaith monitro amser real ei wneud yng Nglascoed, Gogledd Cymru ac mewn dalgylchoedd eraill, er mwyn cadw golwg ar unrhyw newidiadau yn y dŵr. Daw ambell halogydd i'r amlwg, yn cynnwys microblastigau; ond ni cheir sylweddau perfluoroalkyl na polyfluoroalkyl (PFAS) hyd yn hyn.

57. Gofynnwyd am fodel gweithredu cyfredol DCWW, a pha mor effeithiol, effeithlon a thryloyw yw'r model hwnnw. Yn ddiweddar, nododd y cwmni ei fod wedi bod yn adolygu sut gallai ostwng ei gostau gweithredu £90m er mwyn esgor ar arbedion

effeithlonrwydd a chyrraedd ei dargedau ariannol, ond pwysleisiodd ei fod angen rhagor o adnoddau i ymateb i'r heriau amgylcheddol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod nifer o gwmnïau eraill yn y sector wedi amlygu eu bod angen rhagor o adnoddau. Rhoddwyd gwybodaeth i'r cwsmeriaid hynny a oedd wedi holi ynglŷn â'u biliau, ond bydd DCWW yn ceisio gwella tryloywder.

58. Nodwyd nad yw'r arian a roddir yn ôl yn y busnes wedi esgor ar ganlyniadau, gan fod perfformiad y cwmni'n gostwng. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch a yw prosiectau'r cwmni yn esgor ar ganlyniadau achosion busnes, nodwyd enghraifft o fuddsoddi mewn systemau TG a lwyddodd i arwain at wella asedau diriaethol a gwasanaeth gwell i gwsmeriaid.

59. Gofynnwyd i DCWW a fydd graddfa'r buddsoddiad a fydd yn digwydd yn Lloegr wrth gymhwyso'r model yn arwain ar ganlyniadau ar yr un lefel. Nododd DCWW ei fod, fel Hafren Dyfrdwy, yn defnyddio cwmnïau ar draws y diwydiant fel meincnod, a'i fod hefyd yn defnyddio dulliau meincnodi byd-eang. Wrth ymateb i gwestiwn lle gofynnwyd a oedd y cwmni'n uchelgeisiol er gwaethaf y meincnodi, tynnwyd sylw at y ffaith bod Bwrdd a Thîm Gweithredol DCWW yn pwyso am welliannau parhaus.

60. Gofynnwyd i DCWW ddangos ymrwymiadau clir ar gyfer dyfodol y tu hwnt i PR24, gan edrych tuag at 2050 a thu hwnt. Cadarnhaodd DCWW ei fod wedi ailystyried ei gynllun hirdymor a'i fod wedi'i ddiweddaru gydag arbenigedd byd-eang. Mae pwyllgor ansawdd a diogelwch y cwmni'n sganio'r gorwel ac yn ystyried risgiau amgylcheddol a ddaw i'r amlwg, yn cynnwys PFAS. Cytunwyd y byddai'n rhannu ac yn egluro manylion y cynlluniau hirdymor gyda CNC i sicrhau bod ei ymrwymiadau amgylcheddol a'i gydymffurfiaeth yn glir.

61. Diolchodd y Cadeirydd i DCWW am y cyflwyniad. Awgrymodd y dylai'r cwmni adolygu a yw ei fodel gweithredu yn addas i'r diben gan fod ei berfformiad amgylcheddol yn gostwng, a dywedodd fod angen cynnal rhagor o gyd-drafodaethau ynglŷn â'r mater hwn fel y gellir deall y sefyllfa'n well.

## Eitem 10: Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch 2022-23

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch

62. Cyflwynodd y Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch drosolwg o'r papur, yn cynnwys y ffaith fod CNC wedi llwyddo i ddal gafael ar ei gofrestriad ISO 45001: 2018 a Gwobr Arian y Safon Iechyd Corfforaethol. Rhoddwyd gwybod i CNC y gall ymgeisio am y Wobr Aur y tro nesaf. Aseswyd wyth o Adolygiadau Digwyddiadau Difrifol, er bod rhai ohonynt yn aros am ymchwiliadau gan yr heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a'r Crwner. Digwyddodd y rhain yn 2022-23, ond bu oedi cyn cael adborth oherwydd oedi gyda'r Crwner. Mae adroddiad 2021-22 wrthi'n cael ei lunio ar hyn o bryd.

63. Cadarnhawyd bod pob un o'r Adolygiadau Digwyddiadau Difrifol wedi digwydd ar yr ystad goedwig. Nodwyd bod yr holl Adolygiadau Digwyddiadau Difrifol yn ymwneud â chontractwyr ac aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi ymweld â'r ystad at ddibenion hamdden, a bod marwolaethau wedi digwydd yn anffodus. Coedwigaeth yw'r agwedd fwyaf peryglus ar amaethyddiaeth ac mae CNC wedi bod yn gweithio gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Cytundeb Diogelwch y

Diwydiant Coedwigaeth (FISA) a'r diwydiant er mwyn ysgogi gwelliannau. Mae CNC wastad yn cynnal Adolygiadau Digwyddiadau Difrifol, gan eu rhoi i'r naill ochr wedyn tra bydd ymchwiliadau'n cael eu cynnal gan yr heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Crwner.

64. Mae asesydd annibynnol yn adolygu arwyddion CNC yn y fan lle digwyddodd y farwolaeth. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i CNC cyn bo hir a bydd y camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith. Hefyd, mae CNC yn gweithio gyda'r ddau awdurdod lleol perthnasol, a hefyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, er mwyn ymchwilio i'r mater. Bydd y gwaith hwn yn helpu'r heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Crwner.

65. Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r nifer o bobl sy'n canslo cyrsiau hyfforddi, ac yn arbennig mynegwyd pryder ynglŷn â'r gost sydd ynghlwm wrth hyn. Rhoddwyd gwybodaeth am ganslo i'r Tîm Arwain Gweithrediadau a gofynnwyd i aelodau'r tîm hwnnw drosglwyddo'r wybodaeth i reolwyr llinell, er mwyn sicrhau bod y gweithwyr yn mynychu'r cyrsiau. Bydd System Rheoli Dysgu ar waith erbyn mis Ionawr, ac yna bydd adroddiadau am gyrsiau'n cael eu hawtomeiddio. Byddai'n fuddiol i bobl sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi roi sgôr ansawdd ar gyfer y cwrs. Bydd y System Rheoli Dysgu yn cynnig cyfle i'r gweithwyr wneud hyn, a bydd yn dangos a yw'r gweithwyr yn gymwys i fynd i'r afael â'u swyddi. Dros y deuddeg mis nesaf, bydd angen adolygu'r arian sydd ar gael ar gyfer dysgu a datblygu.

66. Gofynnwyd beth yn union fydd yn llywio'r camau nesaf yn y maes Llesiant, Iechyd a Diogelwch, yn dilyn yr arolwg staff Ein Llais. Bydd y System Rheoli Dysgu yn ymdrin â'r broblem a grybwyllwyd o ran systemau a phrosesau. Tynnwyd sylw at y ffaith y gellir mynd â chyfrifiaduron llechen a ffonau ar safleoedd er mwyn hwyluso'r gwaith o gofnodi damweiniau.

## Eitem 11: Rhagolwg y Bwrdd

Cyflwynydd: Natalie Williams, Arweinydd Tîm a Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd, Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

67. Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm a Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd, Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, Ragolwg ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf, a gwnaed newidiadau.

68. Nododd y Prif Weithredwr mai am un diwrnod yn unig y bydd cyfarfod Gorffennaf y Bwrdd yn para, sef dydd Mercher 19 Gorffennaf, ac anogodd aelodau'r Bwrdd i ymuno â CNC yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru.

**CAM GWEITHREDU: Dylai'r Ysgrifenyddiaeth anfon nodyn at y Bwrdd ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.**

## Eitem 12: Unrhyw Fater Arall

69. Nodwyd y bydd gweminarau'n cael eu cynnal ar gyfer aelodau'r Bwrdd ym mis Mehefin, er mwyn dangos canfyddiadau paneli'r cynulliad dinasyddion a gynhaliwyd ar gyfer Natur a Ni.

70. Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â diogelu wyau adar sy'n nythu, sef adar a nodir ar y Rhestr Goch. Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yn drafod hyn gyda Geraint Davies y tu allan i gyfarfod y Bwrdd.

**- Cloi'r cyfarfod -**